# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Y Cynghorydd I.A.N. Perry (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake. V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, S. Lloyd-Selby, E. Penn a S.T. Wiliam

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg), B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy), G. Bruce, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), C.P. Franks, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd), M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu) a N.J. Wood.

## 227 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## 228 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

## 229 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 230 GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARFAETHEDIG AR GYFER EITHRIADAU I DERFYN CYFLYMDER DIOFYN 20MYA CYMRU A GWEITHREDU TERFYNAU CYFLYMDER ATEGOL (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 6 Gorffennaf, 2023, fel yr oedd wedi'i chynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan y Rheolwr Peirianneg Gweithredol - Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Prif Weinidog wedi cyhoeddi ym mis Mai 2019 mai polisi Llywodraeth Cymru oedd sefydlu terfyn cyflymder cenedlaethol diofyn o 20mya. Cymeradwyodd y Senedd ddeddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder diofyn ar Ffyrdd Cyfyngedig yng Nghymru o 30mya i 20mya ar 12 Gorffennaf, 2022.

Gwnaed y Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022 gan Weinidogion Cymru ar 13 Gorffennaf, 2022. Roedd y Gorchymyn yn gostwng y terfyn cyflymder cyffredinol neu ddiofyn ar gyfer Ffyrdd Cyfyngedig, a osodwyd yn adran 81(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, i 20mya. Pwrpas y terfyn cyflymder diofyn newydd oedd lleihau nifer y gwrthdrawiadau ac anafiadau difrifol, gan wella diogelwch, annog dulliau teithio mwy cynaliadwy o fewn cymunedau lleol a helpu i wneud strydoedd yn fwy croesawgar yng Nghymru.

Byddai'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar Ffyrdd Cyfyngedig yn dod i rym ar 17 Medi, 2023, ac eithrio'r ffyrdd hynny a nodwyd yn eithriadau yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022. Roedd gosod eithriadau yn golygu cadw'r terfyn cyflymder ar Ffyrdd Cyfyngedig Dosbarth 'A' a 'B' ar y cyfan ar 30mya, yn hytrach na gostwng y terfyn cyflymder diofyn i 20mya.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod tîm Rheoli Traffig y Cyngor wedi dehongli a chyfeirio at y canllawiau eithriadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru mewn modd cyson, rhesymol a chymesur i bennu pa rannau o ffordd r y rhwydwaith ffyrdd 'A' a 'B' a ddylai gael eu "heithrio" a'u cadw'n 30mya. Defnyddiwyd y wybodaeth i baratoi 'map eithriadau' ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru (TC) i greu darlun cywir o'r Ffyrdd Cyfyngedig a fyddai'n newid i derfyn diofyn o 20mya a'r rhai y cynigiwyd eu heithrio.

Cafodd Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) ei baratoi'n seiliedig ar y "map eithriadau" ar gyfer ffyrdd a fyddai'n aros yn 30mya, ynghyd â therfynau cyflymder ategol ychwanegol a ystyriwyd yn angenrheidiol, a rhoddwyd yr hysbysiad cyhoeddus statudol o'r GRhT ar 22 Mehefin 2023, a byddai hwnnw'n dod i ben erbyn 19 Gorffennaf 2023. Byddai unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn cael eu hadolygu a'u hadrodd i'r Cabinet er ystyriaeth, ac er mwyn gwneud penderfyniad terfynol.

Dywedwyd bod manylion yr atodlen arfaethedig a chynlluniau'r GRhT wedi'u darparu yn Atodiad A a B yr adroddiad. Nid oedd angen GRhT ar gyfer unrhyw ffyrdd a oedd yn gostwng i'r terfyn cyflymder is o 20mya, oherwydd yr hysbysiad statudol cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac ni fyddai angen unrhyw newidiadau nac ymgynghori statudol â'r cyhoedd na rhanddeiliaid eraill ar gyfer y rheiny.

Roedd 'map eithriadau' y Cyngor ar gael ar Map Data Cymru, ac ar wefan y Fro, ac roedd copïau papur o'r atodlen a'r cynlluniau hefyd ar gael yn nerbynfa'r Swyddfeydd Dinesig, i sicrhau y gallai'r holl breswylwyr adolygu'r cynigion.

Estynnodd y Pwyllgor groeso i'w siaradwr cyhoeddus cofrestredig cyntaf, Mr. Max Wallis, a dywedwyd wrtho y byddai'n cael 3 munud i siarad. Cyfeiriodd Mr. Wallis at y canlynol:

- Roedd Cyfeillion y Ddaear wedi gwrthwynebu'r datganiad ar ddechrau gwefan y Cyngor am ei fod yn gamarweiniol.  Roedd y datganiad i fod yn unol â meini prawf eithriadau Llywodraeth Cymru, a theimlwyd bod y penderfyniadau a wnaed ynghylch yr eithriadau a geisiwyd ym Mhenarth, Llandochau, Dinas Powys a Sili yn anghywir.  Roedd sylwadau ar y mater wedi'u cyflwyno i Swyddog Monitro'r Cyngor, yn gofyn am gael tynnu'r eithriadau hynny'n ôl.
- Roedd Mr. Wallis yn adnabod y safleoedd hyn yn bersonol fel beiciwr ac fel un a oedd yn cerdded i Ysbyty Llandochau.
- Roedd y newidiadau arfaethedig i fod i symleiddio arwyddion, ond byddent yn cymhlethu pethau, yn peri dryswch ac yn gostus.
- Nodwyd yng Nghanllawiau'r Llywodraeth y dylai gwahanol derfynau cyflymder fod yn 300 metr o hyd o leiaf, ond roedd Cyfeillion y Ddaear wedi gweld amryw o eithriadau a oedd yn 100 metr neu'n fyrrach.  Roedd hynny'n cynnwys yr eithriad a gynigiwyd ar gyfer Sili a Chyffordd y Merrie Harrier i Landochau, a olygai y byddai'n rhaid i gerbydau gyflymu i fyny allt er mwyn cyrraedd 30mya - byddai hynny'n wastraffus ac yn creu llygredd.
- Roedd yr eithriadau a gynigiwyd ar gyfer y Murch yn Ninas Powys i lawr i Allt Cogan, ac yn y blaen, ac ar hyd Ffordd Lavernock yn groes i feini prawf Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r llwybrau beicio ar y ffordd, lle nad oedd unrhyw wahanu, a chan fod y troedffyrdd yn is na'r safon ofynnol.
- Nid oedd yn glir a oedd y Cyngor wedi cynnal arolwg o balmentydd nac wedi edrych ar ei Rwydwaith Teithio Llesol.

Gan nad oedd unrhyw bwyntiau i'w cadarnhau gan Mr. Wallis, croesawodd y Pwyllgor ei ail siaradwr cyhoeddus, Mrs Hilary May.

Dywedwyd wrth Mrs May y byddai ganddi 3 munud i siarad, a dyma grynodeb o'r pwyntiau a gododd:

- Roedd Mrs. May yn byw yn Ninas Powys, yn yrrwr, yn feiciwr, yn gerddwr ac yn fam i blant oed ysgol a gerddai i'r ysgol.  Roedd hi hefyd yn aelod o Valeways.
- Roedd Mrs. May yn aelod o grŵp teithio llesol gweddol newydd yn y Fro a oedd yn croesawu cyflwyno 20mya nawr, a chyfyngiadau ar ffyrdd cyfyngedig a fyddai'n ei gwneud yn fwy diogel i'r holl breswylwyr ac yn galluogi mwy o gerdded a beicio.
- Roedd Valeways yn pryderu nad oedd Cyngor y Fro yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn llwyr wrth dderbyn y ffyrdd, gan gynnwys ystyriaeth o'r bobl fwyaf agored i niwed.
- Yn ôl y canllawiau, ni ddylid caniatáu eithriadau lle bo nifer sylweddol o gerddwyr a beicwyr yn cymysgu a thraffig modur, ac roedd y maen prawf hwn yn berthnasol i lawer o'r llwybrau a gynigiwyd.
- Cyfiawnhad y Cyngor dros gadw at y 30mya oedd fod nifer fwy o draffig yn mynd ar hyd y llwybrau teithio hyn bob dydd o gymharu â strydoedd preswyl y dref, ac nad oeddent felly'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ffordd â therfyn cyflymder o 20mya. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n rheswm i dderbyn ffordd, ac nid oedd wedi'i gynnwys ymhlith meini prawf Llywodraeth Cymru.

- Roedd y Cyngor i fod i drafod sut y byddai defnyddwyr ffordd agored i niwed yn cael eu gwarchod rhag traffig modur a oedd yn teithio ar gyflymder dros 20mya, ac roedd cyngor ynghylch cyfreithlondeb yr eithriadau wedi'i geisio gan yr elusen Cycling UK a oedd yn cefnogi herio eithriadau'r Cyngor.
- Mae gan Gyngor y Fro bolisïau i leihau'r defnydd o geir a gwella cyfleoedd i deithio'n llesol, ac roedd Mrs. May yn annog y Cyngor i weithredu'n unol â'u geiriau i leihau'r terfynau cyflymder ar bob ffordd gyfyngedig lle nad oedd seilwaith teithio llesol ar wahân.
- Cyfeiriwyd at Ddinas Powys, a hefyd at Allt Cogan, lle'r oedd llawer o gyffyrdd a oedd yn anodd i yrwyr, a llwybr arall yr oedd angen ei ystyried oedd Ffordd Sain Nicolas yn y Barri.

Wrth ofyn am bwyntiau o gadarnhad, dywedodd Mrs. May fod Valeways ar ganol cyflwyno sylwadau yn rhan o'r ymgynghoriad, ond bod anawsterau wedi codi gan nad oedd cyfeiriad e-bost dynodedig. Mewn ymateb i yn, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod gwefan benodol a phorthol ar gael i gyflwyno sylwadau, felly nad oedd angen cyfeiriad e-bost ar wahân. Dywedodd Mrs. May hefyd nad oedd yn credu i'r gyffordd rhwng Ffordd Caerdydd a Ffordd yr Orsaf newid ers iddi fyw yn yr ardal ers, sef dros 15 mlynedd. Dywedodd fod "gwrthdrawiadau mynych" ar y gyffordd.

Ymhellach i'r pwyntiau a godwyd gan y siaradwyr cyhoeddus, dechreuodd y Rheolwr Gweithredol drwy ddatgan y canfuwyd yn ddiweddar fod y Datganiad o Resymau yn anghywir, ac nad oedd yn cynrychioli'r ffeithiau o ran sut roedd y Cyngor wedi cynnal ei asesiad. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad i'r Cabinet wedi dangos sut roedd y Cyngor wedi cynnal yr asesiad i bennu'r ffyrdd eithriedig, felly roedd hwnnw wedi dangos bod y Cyngor wedi dilyn y broses a amlinellwyd yn y canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd adroddiad y Cabinet hefyd yn dangos bod y Cyngor wedi dehongli'r canllawiau mewn modd rhesymegol a chymesur, a theimlwyd bod hynny'n briodol a chyson. Roedd cyngor cyfreithiol hefyd wedi'i geisio ynghylch y Datganiad o Resymau, a phennwyd y gallai'r Cyngor fwrw ymlaen â'i gynlluniau.

Eglurodd y Rheolwr Gweithredol y canlynol hefyd:

- O ran clustogfeydd, roedd hi'n ymddangos fel pe bai rhyw gamddealltwriaeth gan nad oedd llawer o glustogfeydd wedi'u nodi ar y map. Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi ymestyn y terfynau cyflymder o 20mya drwy orchymyn mewn rhai ardaloedd i wneud y terfyn cyflymder yn fwy cyson. Byddai hynny o gymorth i'r Cyngor wrth leoli arwyddion yn well ac yn fwy diogel, mewn mannau mwy gweladwy.
- Soniwyd hefyd am eithriadau ar hydoedd byr o 100metr, ond nid oedd yr un o'r rheiny wedi'u nodi ar hyn o bryd. Byddai'r Cyngor yn barod i ymchwilio ymhellach i hyn pe bai unrhyw dystiolaeth yn cael ei chyflwyno.
- O ran llwybrau beicio, roedd nifer o lwybrau ar Fap Teithio Llesol y Cyngor, ond roedd hi'n bosib nad oedd y rhain wedi'u gweithredu neu eu hadeiladu fel llwybrau beicio dynodedig hyd yma, ac nad oeddent felly'n berthnasol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mewn perthynas ag eithriadau drwy Ddinas Powys, roedd y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth fanwl i nifer y cerddwyr a'r beicwyr. Roedd y Cyngor wedi dehongli

ystyr y term sylweddol yn y canllawiau, ac yn ystyried bod y darn o Ffordd Caerdydd drwy Ddinas Powys a oedd yn mynd heibio nifer o siopau a busnesau, yn ogystal ag ysgol, yn bodloni'r meini prawf, ac y byddai'n newid i'r 20mya diofyn. Fodd bynnag, ystyriwyd nad oedd rhannau eraill o Ffordd Caerdydd yn bodloni'r meini prawf ar hyn o bryd, felly fe'u nodwyd yn eithriadau. Nodwyd hefyd fod troedffyrdd da a chyfleusterau croesi i gerddwyr i'w cael ar y ffordd.

- O ran Ffordd yr Orsaf, nid oedd gan y Cyngor unrhyw dystiolaeth o wrthdrawiadau a oedd yn cynnwys cerddwyr na beicwyr.

Holodd y Cynghorydd S.T. William ynghylch y cynigion ar gyfer Ffordd Jenner, a dywedodd ei fod yn gwrthwynebu'r eithriad ar Ffordd Sain Nicolas, a bod hynny wedi'i godi mewn digwyddiadau ymgynghori blaenorol. Ychwanegodd y Cynghorydd William fod y darn hwnnw o ffordd yn beryglus iawn i breswylwyr. Tynnodd sylw hefyd at bryderon ynghylch Ffordd yr Harbwr a oedd yn creu cyswllt â'r Sarn, a'r groesfan i gerddwyr ar y tro. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai Ffordd Jenner yn 20mya oherwydd gallai plant ysgol fod yn cerdded ar ei hyd. Mewn perthynas â Ffordd Sain Nicolas, dywedodd mai'r sail resymegol dros eithrio oedd y ffaith nad oedd nifer sylweddol o gerddwyr a beicwyr yn defnyddio'r ffordd ac yn cymysgu â'r traffig Roedd troedffordd rhesymol hefyd ar waith. O ran Ffordd yr Harbwr a'r mesurau diogelwch ffyrdd a oedd wedi'u gosod, roedd archwiliadau diogelwch wedi'u cynnal ar y gyffordd/ffordd honno. Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol nad oedd yn ymwybodol o unrhyw wrthdrawiadau, a'i fod yn cynnig cyfleuster da i bobl groesi.

Cafodd y gwrthwynebiad a godwyd gan y Cynghorydd William ynghylch Ffordd Sain Nicolas ei adleisio gan y Cynghorydd M. Hooper a ddywedodd fod 4 croesfan i gerddwyr wrth Rhodfa'r Parc a'r ardal hyd at Ffordd yr Harbwr - roedd hynny'n dangos bod angen sicrhau bod yr ardal yn ddiogel. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at y system godio a ddefnyddir ar y mapiau, nad oedd yn ymddangos yn syml, felly roedd hi'n bwysig i'r Cyngor fod yn ofalus wrth ddeall lleoliad y pryderon a godir gan aelodau o'r cyhoedd. Mewn ymateb i hyn, rhoddodd y Rheolwr Gweithredol sicrwydd y byddai'r holl sylwadau'n cael eu hystyried yn ofalus, ac y byddai'r Cyngor yn gwneud ei orau i ddehongli'r sylwadau i sicrhau eu bod yn deall pa leoliadau yr oeddent yn cyfeirio atynt.

Holodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby sut y byddai'r eithriadau'n cael eu monitro. Mewn ymateb i hyn, eglurodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'r Cyngor yn cydweithio'n agos âr Heddlu i ddeall unrhyw broblemau diogelwch a chydymffurfio. Byddai materion a adroddir gan aelodau o'r cyhoedd hefyd yn cael eu monitro.

Ychwanegodd y Cynghorydd Lloyd-Selby y gellid cynnwys gwybodaeth bellach o bosib ar wefan y Cyngor yn nes at y dyddiad cyflwyno (17 Medi, 2023), fel nodyn atgoffa, gan gyfleu'n glir bod modd cysylltu â'r Cyngor yn barhaus i fynegi pryderon. Byddai hefyd yn fuddiol hysbysu'r cyhoedd ynghylch sut y gellid mynegi pryderon. Dymunai'r Rheolwr Gweithredol ychwanegu y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a chyfres o hysbysebion i'r cyhoedd yn y cyfnod hyd at 17 Medi, a byddai gan Dîm Cyfathrebu'r Cyngor hefyd raglen i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd drwy ddefnyddio deunydd hyrwyddo a

ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r Cyngor hefyd yn sicrhau dull rhwydd i'r cyhoedd fynegi pryderon.

Ymhellach i hyn, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r Cyngor adolygu terfynau cyflymder ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd cyfan ym Mro Morgannwg wedi i'r terfyn cyflymder 20mya diofyn ddod i rym. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol y gallai'r adolygiad hwnnw fod yn dasg enfawr, a fyddai'n debygol o gymryd blynyddoedd i'w chwblhau.

Tynnodd y Cynghorydd C. Champion sylw at bryderon a fynegwyd gan y cymunedau lleol ynghylch darn o ffordd rhwng Ystradowen ac Aberthin. Cyfeiriodd y Cynghorydd Champion hefyd at y slipffordd sy'n cysylltu'r Bont-faen â ffordd osgoi'r A48. Byddai'r darn hwnnw o ffordd yn 20mya a fyddai'n golygu bod modurwyr yn ymuno â'r A48 lle byddai cerbydau eraill yn teithio ar gyflymder o oddeutu 50mya. Gallai hynny fod yn beryglus iawn. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'n ystyried hynny yn rhan o'r broses GRhT.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E. Penn at Ffordd Windsor, ac at y fan lle'r oedd yn cwrdd â Stryd Plassey ym Mhenarth a oedd yn aros yn 30mya. Dywedodd y Cynghorydd Penn y dylid gostwng y ffordd i 20mya, gan fod rhandiroedd, safle bws a thai yn yr ardal. Mewn ymateb i hyn, cyfeiriodd y Rheolwr Gweithredol at y sylwadau blaenorol a wnaed ynghylch dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, ac er ei fod yn cydnabod bod ambell dŷ/fusnes ar ochr ddwyreiniol y ffordd, yn ogystal â rhandir, nid oeddent ond yn cynrychioli mân ddatblygiad ac roedd y Cyngor o'r farn nad oedd hynny'n cyfrannu at, nac yn gyfystyr ag ymadwaith sylweddol â cherddwyr a beicwyr.

Yna cododd y Cynghorydd I. Perry gyfres o bwyntiau y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Byddai'r GRhT yn creu cynnydd o 50% i'r terfynau cyflymder, o 20mya i 30mya, felly gallai mwy o wrthdrawiadau ddigwydd heb weithredu ymhellach.
- Gan fod y Datganiad o Resymau yn anghywir, ac nad oedd yn adlewyrchu'r broses a ddilynwyd, a chan mai dogfen gyfreithiol ydoedd, roedd hynny'n golygu bod yr ymgynghoriad yn ddiffygiol. Roedd hi'n bosib nad oedd aelodau o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r gwallau, a bod hynny wedi gwyro eu sylwadau.
- Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at gydweithio a'r defnydd o wybodaeth leol, ond nid oedd yn glir a oedd hynny wedi digwydd yn Ward y Cynghorydd Perry, gan fod preswylwyr lleol yn ansicr ynghylch lleoliad Kings Land Lane.
- Adroddwyd na fyddai lefelau'r traffig yn cael eu hystyried, ond roedd Rhodfa'r Gorllewin yng Nghaerdydd, un o'r ffyrdd prysuraf yng Nghymru, yn gostwng i'r 20mya diofyn.
- Roedd ansicrwydd ynghylch a oedd y cyhoedd yn llwyr ymwybodol o'r rhesymau wrth wraidd yr eithriadau.
- Prin fu'r mewnbwn ar y cyfryngau cymdeithasol, ac roedd papurau newydd yn cael eu darllen yn llai eang.
- O ran Sain Nicolas, roedd y Cynghorydd Perry wedi mesur y pellter o gât yr ysgol i'r A48 a chanfod ei fod yn 79m, ond roedd Trafnidiaeth Cymru wedi pennu 135m, fwy na thebyg drwy ddefnyddio'r System Gwybodaeth Ddaearyddol.

- Roedd y diffiniad o 'Le' yn y Canllawiau yn gyfyngedig, ac nid oedd yn rhoi ystyriaeth i adeiladau allweddol y Canllawiau Cynllunio.
- Roedd Sain Nicolas hefyd yn cynnwys troedffyrdd cul iawn, a nifer o groesfannau i gerddwyr yn ogystal â Llwybr Treftadaeth y Mileniwm. Roedd yna breswylwyr lleol hefyd a fyddai'n mynd â'u cŵn am dro yn rheolaidd, ac yn teithio ychydig o bellter yn y car i osgoi troedffyrdd cul iawn. Dyna un o'r rhesymau dros gyflwyno'r terfyn cyflymder 20mya newydd.
- Roedd angen i'r Pwyllgor Craffu argymell i'r Cabinet y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r "egwyddor rhagofalus" a sicrhau bod penderfyniadau cryf a deallus yn cael eu gwneud yn gysylltiedig â'r eithriadau i'r terfyn 20mya.

Mewn ymateb i rai o'r pwyntiau a godwyd, nododd y Rheolwr Gweithredol ei fod eisoes wedi gwneud sylw ynghylch y Datganiad o Resymau, a bod cyngor cyfreithiol wedi'i geisio gan gasglu nad oedd unrhyw effaith ar gyfreithlondeb y ddogfen. Gyda golwg ar y pwyntiau a godwyd yn gysylltiedig â Sain Nicolas, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod ymateb manwl wedi'i roi i'r Cynghorydd Perry drwy e-bost yn amlinellu pam bod y ffordd wedi'i heithrio o'r terfyn cyflymder o 20mya. Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol ei fod yn anghytuno â'r pellter o 79m i'r A48, oherwydd gallai'r Cynghorydd Perry fod wedi bod yn cyfeirio at feithrinfa breifat, ac nid oedd unrhyw gyfeiriad at y math hwnnw o leoliad yn y canllawiau. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor wedi ymdrechu'n galed i sicrhau cyn lleied o wallau â phosib, ond roedd rhai gwallau'n bosibl oherwydd natur gymhleth yr ymarfer a gynhaliwyd.

Dywedodd y Cynghorydd A. Ernest ei fod o'r farn nad oedd pawb o'r cyhoedd yn cefnogi cyflwyno parthau 20mya, gan dynnu sylw at y ffaith y byddai'r nifer fawr o ffyrdd ar elltydd yn y Fro yn creu problemau o ran yr amgylchedd, gan fod ceir modern sy'n teithio ar 20mya yn hynod aneffeithlon a byddent yn achosi cynnydd mewn llygredd. Roedd ceir modern wedi'u dylunio i deithio ar 30mya i 40mya, felly roedd y cynigion yn mynd i gael cryn effaith ar breswylwyr a oedd yn byw wrth ymyl y ffyrdd hyn. Roedd problemau o ran adnoddau hefyd, gyda Chyngor Bro Morgannwg yn wynebu cyllidebau cyfyngedig a allai olygu y byddai 2 neu 3 blynedd yn mynd heibio cyn y byddai digon o arian ar gael ar gyfer newidiadau pellach. Dywedodd y Cynghorydd Ernest hefyd y bu cyfeiriad at feicwyr ar y ffyrdd, ond nid oedd hynny'n wir ar lawer o ffyrdd, felly holodd ymhle'r oedd y dystiolaeth i ddangos bod angen parthau 20mya penodol.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Craffu a oedd unrhyw argymhellion penodol i'w gwneud i'r Cabinet? Dywedodd y Cynghorydd Wiliam y byddai'n hoffi i'r Cabinet nodi cymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu yn amodol ar gael gwared â Ffordd Sain Nicolas. Eiliwyd yr argymhelliad a'i drechu yn dilyn pleidlais.

Yn dilyn hynny, cytunodd y Pwyllgor ar argymhelliad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Champion (a eiliwyd yn ffurfiol gan y Cynghorydd William), sef y dylid cyfeirio'r sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor Craffu i sylw'r Cabinet er ystyriaeth.

Yr oedd

ARGYMHELLWYD – Y DYLID cyfeirio sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio mewn perthynas â'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO) arfaethedig ar

gyfer eithriadau i'r adroddiad Terfyn Cyflymder Diofyn 20mya Cymru a Gweithredu Terfynau Cyflymder Ategol i'r Cabinet.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

231 CAU CYFRIFON 2022/23 (CAC) –

Cyflwynodd y Cyfrifydd yr adroddiad, a esboniai fod y Cyngor wedi wynebu pwysau sylweddol ar ei refeniw yn ystod 2022/23. Roedd peth o'r pwysau'n gysylltiedig ag effaith barhaus pandemig Covid-19, a phwysau chwyddiant yn enwedig yn gysylltiedig â chontractau a chyflogau. Roedd y Cyngor hefyd yn parhau i brofi pwysau sylweddol yn gysylltiedig â'r galw am gefnogaeth gan y Gwasanaethau Plant, Digartrefedd a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd camau wedi'u cymryd i ymdrin â'r diffyg gallu i gomisiynu gofal yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, drwy gyflwyno cynnydd ychwanegol mewn ffioedd a oedd wedi'i ddyfarnu yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Roedd hyn, ochr yn ochr â mentrau eraill, wedi arwain at leihau'r rhestr aros am ofal.

Elwodd y Cyngor ar addasiad untro i'r modd yr oedd incwm gofal cymdeithasol wedi'i adlewyrchu yn y cyfrifon, a olygodd bod modd trosglwyddo £2m i'r cronfeydd wrth gefn. Roedd y Cyngor hefyd wedi derbyn incwm buddsoddi ychwanegol yn sgil buddsoddi ei falansau arian parod yn ystod y flwyddyn gan fod cyfradd y banc wedi cynyddu, ac roedd yn parhau i elwa ar ddefnyddio balansau mewn cronfeydd wrth gefn i gyllido benthyciadau yng nghyd-destun cyfraddau llog sy'n codi ar hyn o bryd, gan gadw costau benthyca'r Cyngor mor isel ag sy'n bosibl.

Parhaodd y Cyngor i gyflawni nifer o gynlluniau yn ystod 2022/23, fel y Cynllun Costau Byw Dewisol, lwfansau Tanwydd y Gaeaf a'r Cynllun megis y cynllun Costau Byw yn ôl Disgresiwn, lwfansau Tanwydd Gaeaf a chynllun Adsefydlu Wcráin.

Y sefyllfa o ran refeniw ar ddiwedd y flwyddyn oedd bod y gyllideb yn gytbwys ar ôl trosglwyddiadau o £17.029m net o'r cronfeydd, yn cynnwys £987k wedi'i drosglwyddo o Gronfa'r Cyngor, £953k o'r Cyfrif Refeniw Tai, £11.785m wedi'i drosglwyddo i gronfeydd penodol o refeniw ac £15.554m wedi'i drosglwyddo o gronfeydd penodol i ddarparu cyllid untro ar gyfer prosiectau ac £12,307m wedi'i dynnu i lawr o'r cronfeydd i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf ac am ddadleoli a oedd yn ofynnol gan grantiau cyfalaf. Roedd Cronfa'r Cyngor bellach yn cynnwys £11.523m ar 31 Mawrth 2023.

Gosodwyd targed arbedion refeniw o £500k ar gyfer 2022/23 ac gafodd balans a oedd yn weddill o £170k ar gyfer 2021/22 hefyd ei fonitro drwy gydol y flwyddyn. Er bod rhai arbedion wedi'u nodi o danwariant yn ystod y flwyddyn, fel swyddi gwag, roedd gwasanaethau wedi penderfynu creu sylfaen fwy cynaliadwy ar gyfer y rhain ar gyfer 2023/24.

| Cyfarwyddiaeth | Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23<br>£000oedd | Alldro 2022/23<br>£000oedd | Trosglwydd o i/(o) gronfeydd wrth gefn<br>£000oedd | Amrywiant Ffafriol/(Andwyol)<br>£000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu a Sgiliau | 122,578 | 129,175 | -6,548 | -49 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 80,742 | 78,091 | 1,511 | 1,140 |
| Yr Amgylchedd a Thai | 31,674 | 31,376 | 1,185 | -887 |
| Adnoddau Corfforaethol | 2,208 | 5,920 | -2,263 | -1,449 |
| Lle | 4,088 | 4,323 | -195 | -40 |
| Polisi | 33,764 | 28,364 | 1,638 | 3,762 |
| Defnydd o Gronfeydd wrth Gefn | -996 | 0 | -987 | -9 |
| Gwarged y Dreth Gyngor | -1,500 | -922 | 0 | -578 |
| Amrywiant Ffafriol a Drosglwyddwyd i'r Cronfeydd Wrth Gefn | 0 | 0 | 1,890 | -1,890 |
| Cyfanswm | 272,558 | 276,327 | -3,769 | 0 |

Ar ôl ystyried symudiadau'r Gyfarwyddiaeth i mewn ac allan o'r cronfeydd, dangosai alldro'r refeniw warged o £1,890k, y cynigiwyd ei drosglwyddo i'r cronfeydd i'w wario fel a ganlyn:

- Trosglwyddiad o £200k i'r Gronfa Pwysau a Gwelliannau Addysg i roi cymorth ychwanegol i ysgolion sy'n destun mesurau arbennig;
- £850k i'r Gronfa Pwysau a Gwelliannau Addysg i gefnogi ADY mewn ysgolion prif ffrwd;
- £20k i'r Gronfa Gwasanaethau Cymdogaeth i wneud gwaith trwsio ar gyfleusterau chwaraeon un defnydd;
- £350k i'r Gronfa Gwasanaethau Cymdogaeth ar gyfer cynlluniau microasffalt er mwyn gwella cyflwr y ffyrdd yn ardal y Cyngor;
- £150k i'r Gronfa Gwasanaethau Cymdogaeth er mwyn helpu i gyflawni gwaith iechyd a diogelwch mewn canolfannau hamdden;
- £200k i'r Gronfa Ail-lunio Risg a Buddsoddi i roi cymorth ychwanegol i Blant a Phobl Ifanc;
- £120k i'r Gronfa Gwasanaethau Cymdogaeth i gefnogi gweithredu Cynllun yr A48 er mwyn gwella Diogelwch ar y Ffyrdd.

Ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai roedd swm ychydig yn llai nag a ragamcanwyd, sef £953k, wedi'i dynnu i lawr o'r gronfa glustnodedig, gan ostwng lefel ei gronfa glustnodedig i £16.486m.

Gostyngodd lefel y Cronfeydd Defnyddadwy yn ystod y flwyddyn, er bod y gostyngiad yn is nag a ragamcanwyd.  Cynhaliodd y Cyngor ymarfer ailddyrannu cronfeydd yn ystod y flwyddyn, ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn sefyllfa'r alldro.

| Ar | Balans 01/04/2022 | Cyllid cyfalaf | Trosg. wedi'i Gynllunio (o'r) cronfeydd wrth gefn | Trosg. wedi'i Gynllunio i'r cronfeydd wrth gefn | Ail-ddyrannu Cronfeydd | Amcangyfrif o'r Balans 31/03/2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| Cronfa Gyffredinol | 12,510 | - | - 987 | - | - | 11,523 |
| Yswiriant | 4,529 | - | - | 348 | - | 4,877 |
| Cronfeydd Gwasanaeth | 30,824 | - 886 | - 4,610 | 5,052 | - 7,859 | 22,521 |
| Cronfeydd Risg a Llyfnhau | 21,345 | - 1,594 | - 3,358 | 4,047 | 9,362 | 29,802 |
| Cyfalaf | 27,426 | - 9,828 | - 77 | 1,708 | - 1,503 | 17,726 |
| Ysgolion | 13,145 | - | - 6,522 | 630 | - | 7,254 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 17,439 | - 953 | - | - | - | 16,486 |
| Cyfanswm | 127,218 | - 13,260 | -15,554 | 11,785 | 0 | 110,189 |

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Hooper ynghylch a gafwyd unrhyw elfennau annisgwyl wrth gau'r cyfrifon, dywedodd y Cyfrifydd fod y Pwyllgor wedi cael gwybod yn rheolaidd am orwariant o fewn y Gwasanaethau Cymdogaeth. Rhagwelwyd yn wreiddiol mai £2.175m fyddai'r gorwariant hwnnw, ond y gorwariant gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn oedd £2.3m.

Ar ôl ystyried yr adroddiad,

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) NODI dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

232 CAU CYFRIFON CYFALAF 2022/23 (CAC) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion cau'r Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod 1 Ebrill, 2022 hyd 31 Mawrth, 2023. Roedd y manylion fesul a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Craffu wedi'u dangos fesul cynllun yn Atodiad 1, ac roedd tabl cryno o'r sefyllfa gyfalaf gyffredinol wedi'i gynnwys isod:

| Cyfarwyddiaeth | Rhaglen Gymeradwy 2022/23 | Rhaglen Ychwanegiadau Gymeradwy 2022/23 | Rhaglen Addasedig Gymeradwy 2022/23 | Gwariant Gwirioneddol 2022/23 | Amrywiant yn yr Alldro 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Dysgu a Sgiliau | 30,969 | 1,190 | 32,159 | 34,026 | (1,867) |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,082 | 16 | 1,098 | 767 | 331 |
| Tai | 21,320 | 0 | 21,320 | 22,369 | (1,049) |
| Yr Amgylchedd | 21,204 | 121 | 21,325 | 17,696 | 3,629 |
| Lle | 4,023 | 121 | 4,144 | 3,738 | 406 |
| Adnoddau Corfforaethol | 1,851 | 571 | 2,422 | 2,195 | 227 |
| **Cyfanswm** | **80,449** | **2,019** | **82,468** | **80,791** | **1,677** |

Roedd Atodiad 2 yr adroddiad yn rhoi crynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth, o gymeradwyaeth y Cyngor ar 7 Mawrth, 2022 hyd 31 Mawrth, 2023, gan gynnwys unrhyw newidiadau a geisiwyd yn yr adroddiad.

Roedd angen ychwanegu nifer o gynlluniau gwerth cyfanswm o £2.019m yn hwyr yn y rhaglen ac roedd yr adroddiad yn nodi'r rhaglen addasedig gyfredol o £82.468m a gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn o £80.791m.

Er bod nifer o broblemau yn achosi heriau parhaus i gynlluniau cyfalaf, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn costau a phrinder adnoddau, braf oedd nodi mai gwariant Rhaglen Gyfalaf 2022/23 oedd £80.791m, a bod 98% o'r rhaglen wedi'i gwario cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Oherwydd ymroddiad, ymrwymiad a gwaith caled ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau, roedd yr adroddiad yn nodi'r rhaglen addasedig gyfredol o £82.468 a llithriant net o £715k yr oedd angen ei gymeradwyo drwy Bwerau Argyfwng yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24. Dyma dabl cryno sy'n cynnwys manylion y llithriant:

| Cyfarwyddiaeth | Rhaglen Addasedig Gymeradwy 2022/23 | Alldro Diwygiedig 2022/23 | Amrywiant 2022/23 | Llithriant Net a Geisiwyd 2022/23 | Addasiadau i'r Gyllideb / Ni cheisiwyd llithriant 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Dysgu a Sgiliau | 32,159 | 34,026 | (1,867) | 2,146 | (279) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,098 | 767 | 331 | (329) | (2) |
| Tai | 21,320 | 22,369 | (1,049) | 1,280 | (231) |
| Yr Amgylchedd | 21,325 | 17,696 | 3,629 | (3,206) | (423) |
| Lle | 4,144 | 3,738 | 406 | (364) | (42) |
| Adnoddau Corfforaethol | 2,422 | 2,195 | 227 | (242) | 15 |
| Y Fargen Ddinesig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **82,468** | **80,791** | **1,677** | **(715)** | **(962)** |

Ar gyfer y Pwyllgor Craffu, y sefyllfa o ran y gyllideb oedd amrywiant o £3.58m yn erbyn rhaglen addasedig o £20.941m. Cofnodwyd alldro o £17.361m ar gyfer y Pwyllgor Craffu a llithriant o £3.163m.

Gwnaeth y Cynghorydd Hooper sylwadau am yr effaith ar brosiectau a'r gyfradd chwyddiant gyfredol o tua 10% a holodd a oedd gan y Cyngor ddigon o arian wrth gefn wedi'i neilltuo. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Cyfrifydd y cydnabuwyd bod chwyddiant yn uchel iawn, felly byddai'r rhan fwyaf o brosiectau cyfalaf yn cael eu hadolygu cyn dechrau i sicrhau bod costau'n cael eu cadarnhau. Byddai risgiau prosiect yn cael eu rheoli fesul achos, gyda'r rhan fwyaf yn cynnwys elfen wrth gefn a fyddai'n dibynnu ar ffynhonnell y cyllid. Gwnaed defnydd o gronfeydd y Cyngor y gellid eu clustnodi, ac mewn rhai achosion roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol.

Nodwyd bod y Cyngor wedi talu i gael gwared â chyfamod ar gyfer Cliff Tops ym Mhenarth, a oedd wedi'i gwneud hi'n bosib rhoi un o'r adeiladau ar brydles ar gyfer consesiynau.

Ar ôl hynny,

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

(2) NODI'r cyllidebau cynllun ychwanegol a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(3) NODI'r sefyllfa gryno o'r newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o'u cymeradwyo yn y Cyngor ar 7 Mawrth, 2022 i 31 Mawrth, 2023 fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

(4) NODI'r Pwerau Argyfwng a gymeradwywyd mewn perthynas â'r llithriad a nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

233 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL PERFFORMIAD CHWARTER 4 2022/23 (CL) –

Roedd yr adroddiad perfformiad, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Lle yn amlinellu cynnydd y Cyngor yn Chwarter 4 (Ch4) (1 Ebrill, 2022 hyd 31 Mawrth, 2023) tuag at gyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (2022/23) fel roeddent wedi'u halinio ag Amcanion ei Gynllun Llesiant Corfforaethol.

Bwriadwyd i'r cyflwyniad atodedig roi trosolwg i'r Aelodau o berfformiad diwedd y flwyddyn yn gynharach yn y flwyddyn galendr. Roedd hyn cyn yr Hunanasesiad 2022/23 manylach, a fyddai'n cael ei adrodd i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn cyn ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023.

Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o bedwar Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn Ch4 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma er mwyn cyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23.

Roedd 90% (343 o 380) o'r gweithgareddau cynlluniedig a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor wedi cael sgôr perfformiad Gwyrdd gan adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter, a rhoddwyd statws Coch i 10% (37) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd.

O'r 128 o fesurau perfformiad a oedd wedi'u halinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 56 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i 70% (39) o fesurau, statws perfformiad Ambr i 7% (4) a statws perfformiad Coch i 23% (13). Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol i 72 o fesurau, gyda 50 o'r rheiny'n gysylltiedig â mesurau a oedd yn sefydlu perfformiad llinell sylfaen ar gyfer 2022.23, ac nid oedd diweddariad na data ar gael ar gyfer 22 o fesurau.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau cynlluniedig a oedd o fewn cylch gwaith Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio, rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i 90% (100 o 111) a statws Coch i'r 10% (11) olaf. O'r 21 o fesurau a adroddwyd, rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i 72% (15), statws perfformiad Ambr i 14% (3) a statws Coch i 14% (3).

Er hwylustod wrth gyfeirio, roedd eithriadau o ran perfformiad a oedd yn gyson â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu yn amlygu statws cyfredol camau perfformiad Coch a nodwyd mewn chwarteri blaenorol, i ddangos cyfeiriad y daith ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai hyn yn galluogi'r Aelodau i fesur yn gyflym a oedd camau unioni a gynigiwyd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn i fwrw ymlaen â'r camau dan sylw. Roedd y dull hwn o adrodd ar eithriadau'n adlewyrchu'r newidiadau a geisiwyd gan Aelodau Etholedig ar gyfer monitro perfformiad y Cynllun Cyflawni Blynyddol.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch4 a'r camau unioni a gynigiwyd i fynd i'r afael â meysydd lle nodwyd tanberfformiad. Ar ôl rhoi ystyriaeth iddynt, argymhellwyd y dylai aelodau'r Pwyllgor Craffu gyfeirio eu sylwadau ac unrhyw argymhellion i sylw'r Cabinet er ystyriaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at Gofrestr Risg y Cyngor a dynnai sylw at y ffaith bod statws coch wedi'i roi i Brosiect Sero, a holodd a oedd y Cyngor yn canolbwyntio digon ar hyn ac ystyried y byddai'r flaenoriaeth a roddir i broblemau newid hinsawdd yn tyfu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.  Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr Lle fod adroddiad monitro Chwarter 4 wedi dangos llithriant mewn sawl maes.  Ers mis Mawrth, fodd bynnag, bu cynnydd yn y rhan fwyaf o feysydd, yn bennaf drwy benodi ymgynghorwyr er mwyn helpu i arwain prosiectau.  Bu heriau o ran hyn gan fod galw mawr am wasanaethau ymgynghorwyr arbenigol.  Er enghraifft, yn achos y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, roedd llawer o'r gwaith cefndirol wedi'i gwblhau, ond bu'n rhaid i ymgynghorydd gwblhau'r strategaeth gan fod gan staff y Cyngor flaenoriaethau eraill fel cwblhau'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.  Ymhellach i hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr y bu llithriant yn rhai o'r camau, a bod rhai o'r materion y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, ac fel arfer yn sefyllfaoedd lle'r oedd y Cyngor yn dibynnu ar 3ydd parti i gyflawni.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Lloyd-Selby at y broses i ymgeisio am basys bws, ac awgrymodd y dylid ychwanegu dolen ar wefan y Cyngor o dan yr adran "gwneud cais am"  Cytunodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai i fwrw ymlaen â'r awgrym hwnnw.

Cytunodd y Cyfarwyddwr hefyd i ddarparu gwybodaeth bellach am gynnydd y gyfnewidfa drafnidiaeth a oedd wedi'i chynllunio ar gyfer Cogan / Penarth.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach,

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canlyniadau perfformiad Chwarter 4 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau cynllun cyflawni blynyddol 2022/23 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.